

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2022. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Rebecca Evans AS,
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

7 Mawrth 2022

RHAN 1

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae Rheoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) 2012 ("Rheoliadau 2012") yn rhagnodi'r cwestiynau y mae'n rhaid eu gofyn wrth gynnal arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr aflwyddiannus ym mhob etholiad cyffredin i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau tref a chymuned.
- 1.2 Mae Rheoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2022 ("Rheoliadau 2022") yn diwygio'r cwestiynau y mae'n rhaid eu gofyn drwy gynnwys arolwg diwygiedig yn lle'r un a nodwyd yr yr atodlen i Reoliadau 2012.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Gwneir Rheoliadau 2022 drwy arfer y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan adran 1(3)(a) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("y Mesur"), sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynnal arolwg drwy ofyn cwestiynau rhagnodedig ar unrhyw ffurf rhagnodedig neu mewn unrhyw dull rhagnodedig. Diffinnir "rhagnodedig" yn adran 175 o'r Mesur fel "rhagnodedig mewn rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru".
- 3.2 Mae'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.
- 3.3 Mae Rhan 1 o'r Mesur yn cyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i fonitro cydraddoldeb ac amrywiaeth ymgeiswyr mewn etholiadau cyffredin i brif gynghorau a chynghorau tref a chymuned.
- 3.4 Mae adran 1(1) a (2) yn darparu, yn unol â rheoliadau, bod yn rhaid i awdurdod lleol gynnal arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr aflwyddiannus mewn etholiadau cyffredin i sir neu fwrdeistref sirol ac i gyngor tref a chymuned. Fel arall, gall awdurdodau lleol drefnu i drydydd parti gynnal yr arolwg ar eu rhan.
- 3.5 Mae adran 1(3)(a) a (b) yn darparu y dylai'r cwestiynau a ofynnir, y modd y gofynnir hwy a sut y caiff yr wybodaeth ei choladu fod fel y rhagnodwyd mewn rheoliadau.
- 3.6 Mae adran 1(4) yn nodi'r meysydd cwestiynau, y gellir eu gofyn yn yr arolwg. Y meysydd yw - rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, iaith, hil, oedran,

anabledd, crefydd neu gred, iechyd, addysg neu gymhwyster, cyflogaeth a gwaith fel cynghorydd.

- 3.7 Mae adran 1(5) yn darparu nad oes dyletswydd ar unrhyw unigolyn i ddarparu unrhyw wybodaeth, a bod cymryd rhan yn wirfoddol felly.
- 3.8 Mae Rhannau 2 a 3 o'r Atodlen yn darparu dwy set wahanol o gwestiynau i'w defnyddio cyn neu ar ôl yr etholiad. Os cynhelir arolwg cyn yr etholiad, rhaid i'r arolwg gynnwys y cwestiynau a geir yn Rhannau 1, 2 a 4 o'r Atodlen. Os cynhelir arolwg ar ôl yr etholiad, rhaid i'r arolwg gynnwys y cwestiynau a geir yn Rhannau 1, 3 a 4 o'r Atodlen.
- 3.9 Mae rheoliad 4 o Reoliadau 2012 yn darparu bod yn rhaid casglu'r wybodaeth mewn taenlen electronig a'i darparu i Weinidogion Cymru o fewn chwe mis i ddyddiad yr etholiad cyffredin.
- 3.10 Mae adran 2(5) a (6) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi a rhannu'r wybodaeth mewn fformat dienw. Rhaid i'r wybodaeth gael ei chyhoeddi gan Weinidogion Cymru o fewn 12 mis i'r etholiad cyffredin y mae'n ymwneud ag ef.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Mae Rheoliadau 2022 yn gwneud mân newidiadau i gwestiynau'r arolwg a nodir yn Rheoliadau 2012 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2016), Mae'r newidiadau'n mynd i'r afael â dau brif fater: y cyntaf ohonynt yw esblygiad yr iaith sy'n ymwneud â'r maes cydraddoldeb ac amrywiaeth, a bydd hyn yn caniatáu mwy o ronynogrwydd o ran dadansoddi'r data a gesglir yn ystod proses yr arolwg. Yr ail yw gwneud geiriad y cwestiynau'n haws i'w ddeall fel bod y cwestiynau felly'n haws eu hateb. Nid yw cwmpas y cwestiynau presennol yn cael ei newid. Dyma grynodedeb o'r newidiadau:
 - Newidiadau i eiriad cwestiynau 4A, 4B a 4C i nodi a oedd unigolyn yn llwyddiannus mewn etholiadau Cymunedol, Cyngor Tref, Sir neu Fwrdeistref Sirol blaenorol.
 - Cwestiwn ychwanegol 9, sy'n ymwneud â rhywedd ac sy'n gofyn, 'Ydy'r rhywedd rydych chi'n uniaethu ag ef yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsoch chi eich geni?'
 - Cwestiwn 11 - Ychwanegu 'cyfrifoldebau gofalu' yn lle 'cyfrifoldeb rhiant.'
 - Cwestiwn 13 – Grŵp ethnig – rhagor o ymatebion wedi'u hychwanegu at y dewis.
 - Cwestiwn 14 – Crefydd – ymateb arall wedi'i ychwanegu at y dewis ("Gwell gen i beidio â dweud").
 - Cwestiwn 15 – Cyfeiriadedd rhywiol – ymateb arall wedi'i ychwanegu at y dewis ("Gwell gen i beidio â dweud").
 - Cwestiwn 18 – Addysg – aileirio'r cwestiwn i adlewyrchu'r Arolwg Cenedlaethol ac ychwanegu cyfeiriad at gymwysterau proffesiynol.

- Cwestiwn 19 – Statws cyflogaeth – ymateb dewisol ychwanegol "absenoldeb rhiant" a "wedi ymddeol yn rhannol"
 - Cwestiwn 20 – Y sector cyflogaeth cyfredol – llai o ymatebion i ddewis ohonynt ond ychwanegu "y lluoedd arfog".
 - Cwestiwn 22 – Aileirio'r cwestiwn i adlewyrchu'r iaith gyfredol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth.
 - Cwestiwn 22A – Dileu'r cwestiwn hwn: 'Ydy unrhyw gyflwr neu salwch sydd gennych chi'n lleihau eich gallu i wneud gweithgareddau pob dydd'.
 - Cwestiwn 23 – Aileirio'r cwestiwn i adlewyrchu'r iaith gyfredol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- 4.2 Mae'r arolwg diwygiedig yn Rheoliadau 2022 hefyd yn cynnwys cwestiynau ychwanegol ynghylch ymwybyddiaeth o'r 'Cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol' sydd ar gael i gynghorwyr a 'Chronfa Mynediad i Swydd Etholedig Cymru'. Mae'r rhain yn gwestiynau ychwanegol a ganiateir i'r rhestr o benawdau cwestiynau yn adran 1(4) o'r Mesur, ac fe'u cynhwysir o ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Diben y cwestiynau hyn yw darparu gwybodaeth am lwyddiant neu ddiffyg lwyddiant mentrau sydd â'r nod o hybu amrywiaeth cynghorwyr lleol.
- 4.3 Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i annog ystod fwy amrywiol o ymgeiswyr i sefyll mewn etholiadau llywodraeth leol. Nod Rheoliadau 2022 yw casglu data dibynadwy ar broffil ymgeiswyr a chynghorwyr mewn llywodraeth leol. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i gynllunio polisïau i wella amrywiaeth o ran aelodaeth cynghorau ac i asesu pa mor effeithiol yw'r polisïau hynny.

5. Ymgynghori

- 5.1 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnal arolwg o ymgeiswyr mewn perthynas ag etholiadau lleol Mai 2022. Roedd yn bwysig adolygu cwestiynau'r arolwg (fel y'u pennwyd gan Reoliadau 2012) er mwyn canfod a oeddent yn dal yn berthnasol mewn perthynas ag etholiadau mis Mai 2022.
- 5.2 Daw Rheoliadau 2022 i rym ar 28 Mawrth 2022, a hynny mewn pryd i ymgeiswyr swyddogol sy'n sefyll yn etholiad Mai 2022 allu cael gafael ar yr arolwg a'i gwblhau naill ai cyn yr etholiad neu ar ôl yr etholiad.
- 5.3 I ddechrau, cysylltwyd â rhanddeiliaid allweddol i holi a oedd yr arolwg presennol yn briodol. Roedd adborth o'r trafodaethau hyn yn awgrymu bod angen newid geiriad rhai cwestiynau, a hynny'n bennaf i adlewyrchu'r iaith sydd wedi'i diweddarau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth. Teimlid hefyd ei bod yn bwysig ystyried newidiadau i'r dull o ymdrin â gwybodaeth bersonol yn unol â GDPR y DU.

- 5.4 Ar y sail hon, roedd Llywodraeth Cymru o'r farn na fyddai fawr o fudd mewn ymgysylltu'n ehangach ynghylch cynnwys arolwg diwygiedig. Felly, ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn, gan fod y newidiadau a awgrymwyd i'r arolwg yn sgil yr ymgynghori cychwynnol â rhanddeiliaid yn gyfyngedig ac yn dechnegol eu natur.
- 5.5 Yn dilyn yr adborth cychwynnol hwn, gwahoddodd Llywodraeth Cymru grŵp wedi'i dargedu o unigolion i roi adborth ar yr arolwg diwygiedig drwy ymatebion ysgrifenedig a chynigiwyd cyfle i aelodau'r grŵp fynychu digwyddiad rhithwir yn ystod mis Chwefror. Yn ystod y digwyddiad, ac wedi hynny, bu rhanddeiliaid yn ystyried yr arolwg diwygiedig a'r canllawiau cysylltiedig ac yn rhoi sylwadau arnynt.
- 5.6 Mae'r newidiadau a awgrymwyd gan rhanddeiliaid yn ystod trafodaethau ac mewn ymatebion ysgrifenedig wedi'u cynnwys, lle bo'n bosibl, yn yr arolwg diwygiedig, ac mae'r grŵp wedi cael gwybod y rhesymau pam nad oedd modd cynnwys rhai o'r awgrymiadau fel rhan o'r adolygiad hwn.

RHAN 2

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

- 6.1 At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae'r costau/adnoddau sy'n gysylltiedig â drafftio'r arolwg a'r canllawiau yn 'gostau sydd wedi darfod'.
- 6.2 Yr opsiynau ar gyfer cyflawni'r amcanion polisi mewn perthynas â'r arolwg diwygiedig, fel y trafodir yn Adrannau 3 a 4 uchod yw:
- Opsiwn 1 – Cadw'r *status quo* h.y. peidio â gwneud unrhyw newidiadau i'r arolwg presennol.

neu
 - Opsiwn 2 – Cyflwyno Rheoliadau diwygiedig. Diwygio Rheoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) 2012 i adlewyrchu'r newidiadau a argymhellwyd gan randdeiliaid mewn perthynas â diweddarau'r iaith a ddefnyddir yn y cwestiynau ac i gynnwys cwestiynau ychwanegol mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o'r lwfans 'Cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol' a 'Y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru' a'r nifer sy'n manteisio arnynt.

Opsiwn 1

- 6.3 Cadw'r *status quo* – byddai hyn yn arwain at arolwg na fyddai'n ymgorffori newidiadau a awgrymwyd gan randdeiliaid i adlewyrchu'r newidiadau diweddaraf mewn polisi a therminoleg cydraddoldeb ers 2016, nac yn diwygio cwestiynau i'w gwneud yn haws i'r darllenydd eu deall. Serch hynny, byddai'r opsiwn hwn yn hwyluso cymhariaeth uniongyrchol â chanlyniadau arolygon blaenorol. Fodd bynnag, gweler paragraff 6.8 isod.
- 6.4 Mae angen cyllid o £35,000 i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r arolwg, sy'n cael ei reoli drwy Data Cymru ar ran y 22 awdurdod lleol.

Nid argymhellir yr opsiwn hwn

Opsiwn 2

- 6.5 Paratowyd yr arolwg diwygiedig yn Rheoliadau 2022 gyda chyfranogiad Data Cymru, y Comisiwn Etholiadol, y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru a'r grŵp rhanddeiliaid wedi'i dargedu, sy'n cynnwys yr awdurdodau lleol, penaethiaid gwasanaethau democrataidd a swyddogion monitro, ac

adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru. Cytunodd yr holl bartïon fod angen diweddarau'r arolwg ar gyfer etholiadau lleol 2022.

- 6.6 Nid yw arolwg a chanllawiau 2022 ond yn cael eu diwygio yn ôl yr angen, gan y byddant yn destun adolygiad ehangach ar ôl etholiadau lleol 2022. Lle bo angen diwygio cwestiynau, rydym wedi defnyddio cwestiynau tebyg o Gyfrifiad 2021 a'r Arolwg Cenedlaethol lle bo modd, sydd eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad helaeth. Ar gyfer cwestiynau eraill rydym wedi elwa ar arbenigedd technegol y grŵp rhanddeiliaid ac adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru.
- 6.7 Nod y newidiadau yw gwella'r gyfradd ymateb i'r arolwg, a gwella ansawdd y data a ddaw i law. Bydd hyn yn ei dro yn helpu i sefydlu llwyddiant neu ddiffyg llwyddiant mentrau i gynyddu amrywiaeth cynghorwyr lleol. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu mentrau pellach i annog set fwy amrywiol o ymgeiswyr i sefyll i gael eu hethol i lywodraeth leol.
- 6.8 Gan mai dim ond mân newidiadau a awgrymir heb wneud unrhyw newidiadau i gwmpas y cwestiynau, dylai cymharu'r data o arolwg 2022 a'r data o'r arolwg blaenorol yn dilyn etholiadau lleol 2017 fod yn gymharol syml.
- 6.9 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol disgwylidig yn gysylltiedig â chynnal yr arolwg diwygiedig na choladu a dadansoddi canlyniadau'r arolwg. Mae angen cyllid o £35,000 i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r arolwg drwy Data Cymru ar ran pob un o'r 22 awdurdod lleol.

Dyma'r opsiwn a argymhellir ac a ffefrir.

7. Asesiad cystadleuaeth

- 7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau i'r farchnad yn gysylltiedig â diweddarau'r holiadur a'r canllawiau. Nid yw'n cael unrhyw effaith ar fusnes, elusennau na'r sector gwirfoddol.

8. Arall

- 8.1 Nid yw Rheoliadau 2022 yn dynodi newid yn y polisi ers i'r arolwg gael ei gyflwyno gyntaf yn 2012, gan mai'r bwriad polisi yw annog ystod fwy amrywiol o ymgeiswyr i sefyll etholiad ac i aros ymlaen fel cynghorwyr. Bydd casglu data dibynadwy ar broffil ymgeiswyr yn galluogi llunwyr polisïau i gynllunio mentrau i wella amrywiaeth o fewn cynghorau, ac i asesu effeithiolrwydd mentrau sy'n bodoli eisoes, megis y 'Cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol' sydd ar gael i gynghorwyr a'r 'Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru'.

- 8.2 Er hynny, mae geiriad rhai o'r cwestiynau yn yr arolwg blaenorol a gynhwyswyd yn Rheoliadau 2012 wedi'i newid i adlewyrchu'r iaith a'r derminoleg gyfredol a ddefnyddir mewn cwestiynau sy'n ymwneud â chydaddoldeb ac amrywiaeth yng Nghyfrifiad 2021 a'r Arolwg Cenedlaethol. Ymgynghorwyd ag adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru (gan gynnwys yr Adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi), Anabledd Cymru a grwpiau rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r arolwg diwygiedig.

9. Adolygu ar ôl gweithredu

- 9.1 Yn dilyn dadansoddiad o arolwg 2022 wedi'i gwblhau, cynhelir gwerthusiad o effeithiolrwydd yr arolwg i lywio datblygiadau yn y dyfodol.